

Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Minutes (SFM(2)-01-06)

Dyddiad y cyfarfod: 2 Chwefror 2006

Amser y cyfarfod: 14.30 - 16.30

Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru Canolfan Ymwelwyr y Gogledd Parc y Tywysog, Bae Colwyn

Aelodau Cynulliad yn Bresennol

Aelod Cynulliad	
Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC	Prif Weinidog Cymru
	Pwyllgor
Rosemary Butler	Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon
Glyn Davies	Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Janet Davies (Cadeirydd)	Archwilio
Janice Gregory	Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Chris Gwyther	Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
Ann Jones	Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Rhodri Glyn Thomas	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Sandy Mewies	Materion Ewropeaidd ac Allanol

Swyddogion yn bresennol

Enw	Teitl swydd
Karin Phillips	Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau a Chlerc y Pwyllgor
Lara Date	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Graham Winter	Swyddog Ymchwil Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Jeff Andrews	Cynghorydd Arbenigol
Martin Evans	Cyfarwyddwr y Rhaglen Newid
Robin Shaw	Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru

Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon, Cworwm a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Nododd y Cadeirydd ymddiheuriadau gan Peter Black AC a Gwenda Thomas AC.

1.3 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant o dan Reol Sefydlog 4.6.

Eitem 2: Sesiwn Graffu – Trafnidiaeth (14:30 - 15.45)

2.1 Craffwyd ar waith y Prif Weinidog ym maes materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth.

Cam i'w gymryd:

Bydd y Prif Weinidog yn darparu nodyn ar welliannau i gysylltiadau rheilffordd i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy i'r Pwyllgor

Eitem 3: Sesiwn Graffu – Diwygio Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (15.45 – 16.30)

3.1 Craffwyd ar waith y Prif Weinidog ym maes diwygio cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Cam i'w gymryd:

Bydd y Prif Weinidog yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am aelodau'r Panel Cynghori sy'n pontio rhwng Addysg a Dysgu Gydol Oes a Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

3.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 18A bydd y Pwyllgor yn cyfarfod ymhen pob cyfnod o un wythnos ar bymtheg y bydd y Cyfarfod Llawn yn eistedd, ac felly cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 29 Mehefin 2006 Fe'i cynhelir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd, rhwng 9.30 a 11.30.

3.3 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 16:30pm.

